# COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD 2 EBRILL 2025

Yn bresennol: Y Cadeirydd Annest Smith

Y Cynghorwyr: Richard Davies, Sarah Hughes, Hefin Jones, Iwan Jones, Aron Roberts, Enid Roberts, Idwal Williams.

Hefyd yn bresennol: Karen Hughes (Swyddog Ariannol)
Lona Williams (Clerc)

Ymddiheuriadau: Elfed Roberts (Cynghorydd Sir).
A. Huw Jones , Keith O'Brien , Llywarch Davies, Aranli Thomas.

## 2444 - COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y 5ed o Fawrth 2025 fel y rhai cywir gan y Cadeirydd.

## 2445 - MATERION YN CODI O'R COFNODION

1401(3b) a 2191(1) - Garej Lôn – Adroddwyd bod Liz Saville Roberts wedi ymateb i'r e-bost yn gofyn i'r Clerc beth yw'r cyngor a'r arweiniad yr ydym wedi'i dderbyn hyd yma gan y Cyngor a'r Heddlu ac y byddai'n fodlon dod i drafod y sefyllfa gyda'r Cyngor Cymuned. Cytunwyd i yrru llythyr i'r heddlu a'r cyngor i ofyn am grynodeb o'r digwyddiadau hyd yma er mwyn eu darparu i'r Aelod Seneddol ac i ystyried y camau nesaf yr ydym am eu cymryd. Cytunwyd yn ogystal i yrru llythyr at Liz Saville Roberts yn nodi ein bod am baratoi gwybodaeth at ei gilydd am y sefyllfa ac y byddem yn hoff iddi ddod i gyfarfod arbennig gyda'r Cyngor er mwyn trafod y mater o fis Mai ymlaen.

1774(4) - Gardd Sylvia Crowe, Sgwar y Ddraig a'r Adeilad Man Gwylio – Adroddwyd nad oedd adroddiad pellach, a na fydd adroddiad pellach nes y bydden nhw wedi cael arian.

1842(2) a 1878(7) a 2024(4) - Cyflymder a Goleuadau Stryd Bronaber/ Damweiniau ar ffordd A470/A4212 – Adroddwyd bod y Clerc wedi derbyn ymateb gan Llywodraeth Cymru yn nodi eu bod wedi adolygu'r A470 yn Nhrawsfynydd o'r blaen yn erbyn y canllawiau sy'n bodoli a daeth y gwaith hwnnw i'r casgliad mai 60mya oedd y terfyn cyflymder priodol. Eglurwyd bod canllawiau newydd am ddod i rym a byddent yn adolygu'r holl derfynau cyflymder ar draws y rhwydwaith cefnffyrdd, gan gynnwys yr A470 yn Nhrawsfynydd a Bronaber, pan gyhoeddir y canllawiau. O ran Bronaber, eglurwyd bod angen gorchymyn i ddefnyddio arwyddion i atal goddiweddyd. Mae'r meini prawf ar gyfer arwyddion o'r fath wedi'u nodi ym Mhennod 3 y Llawlyfr Arwyddion Traffig a eglurwyd nad oedd hyn yn bosib ym Mronaber. O ran bod goleuadau stryd yn bresennol ym Mronaber, ac unrhyw effaith y gallai hyn ei gael ar y terfyn cyflymder ar yr A470, mae nifer o leoliadau ar y rhwydwaith cefnffyrdd lle mae system o oleuadau stryd yn bresennol ond nid oes arwyddion terfyn cyflymder yn bodoli, naill ai i ddangos bod y terfyn cyflymder cenedlaethol yn berthnasol drwy orchymyn atal neu unrhyw derfyn is. Nid yw Bronaber yn bodloni'r meini prawf i fod yn bentref fel y nodir yn y canllawiau Gosod Terfynau Cyflymder Lleol presennol yng Nghymru; felly eglurwyd na fyddent yn arwyddo cyfyngiad cyflymder 30mya yma. Eglurwyd pan gyhoeddir y canllawiau newydd byddent yn adolygu'r terfynau cyflymder ar draws y rhwydwaith cefnffyrdd. Tan hynny, dywedwyd na fydd unrhyw newidiadau i derfynau cyflymder unigol er mwyn sicrhau cysondeb â'r canllawiau newydd. Cytunwyd i yrru copi o'r e-bost ymlaen i'r cynghorwyr a aros i'r canllawiau newydd ddod i rym.

2068(2) - Mynwent Pencefn – Adroddodd y Swyddog Ariannol bod y pensaer Mr Rhys Davies wedi e-bostio gydag ateb Cyfoeth Naturiol Cymru am ymholiad i ymestyn mynwent Pencefn. Eglurwyd y bydd angen asesiad risg rhagarweiniol i adnabod potensial am lygru dwr o ganlyniad i ddefnydd o dir fel mynwent. Adroddwyd bod hyn am gostio mwy i'r cyngor a bod Mr Rhys Davies wedi holi dau gwmni lleol os ydynt yn medru darparu asesiad risg lefel 1. Mae

ymgynghorwyr draeniad yn Llan Ffestiniog wedi cadarnhau eu bod yn medru darparu'r gwasanaeth, a gofynnwyd i CS consulting Dolgellau ond ni chafwyd ymateb hyd yma.

2099(6) - Marciau Gwyn y Pentref/Maes Parcio Bryn Glas – Cytunwyd y byddem yn aros i'r Cynghorydd Elfed Roberts fod yn bresennol er mwyn derbyn adroddiad.

2247(2) - Meinciau Gardd Salem – Adroddwyd bod y Swyddog Ariannol am gysylltu gyda Wynnstay er mwyn prynnu'r meinciau ar gyfer Gardd Salem.

2252(3) - Cofeb Hedd Wyn (Naomi Jones Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) – Adroddodd y Cyngorydd Hefin Jones nad oedd diweddariad pellach.

2255(1) - Pont droed Llyn Trawsfynydd – Adroddwyd nad oedd diweddariad pellach ac ein bod yn parhau i aros am ymgynghoriad sydd am ddigwydd gyda trigolion y pentref er mwyn gweld beth yr hoffent eu gweld yn digwydd gyda'r bont droed.

2333(11) - Ffordd tu cefn i 1-6 Bro Prysor – Adroddodd y Clerc ei bod wedi e-bostio Cyngor Gwynedd ac wedi derbyn ymateb yn dilyn ymweliad y swyddog yn nodi bod statws y darn tir yn breifat ond ei fod yn ymddangos nad yw'r perchennog yn glynu wrth yr amodau a osodwyd gan CCG sef Adra erbyn hyn. Mae'r perchennog yn gadael cerbydau ac offer fel peiriannau sment ar ei dir sydd yn rhwystro mynediad i eraill, sydd yn groes i delerau'r sêl. Mae hyn wedi cael ei drosglwyddo'n awr i adran Gwarchod y Cyhoedd ac yr ydym yn aros am ymateb. Penderfynwyd y byddai'r clerc yn gyrru e-bost arall i ofyn am ddiweddariad os na bydd ymateb o fewn yr wythnos.

2334(1) - Gwefan y Cyngor – Adroddodd y Swyddog Ariannol bod GWE Cambria yn parhau i weithio ar y wefan. Gofynnwyd i'r clerc gasglu'r cofnodion a'r agenda yn ôl i fis Ionawr 2024. Yr oedd y Swyddog Ariannol wedi derbyn cadarnhad gan GWE Cambria bod yn bosib cael dolen ar y wefan gyda linc i wefannau defnyddiol eraill os bydd angen.

2379(4) Bryn y Gofeb – Adroddwyd nad yw'r gwaith wedi cael ei wneud eto gan gwmni Tir a Choed a bod defaid yn parhau i ddod i Fryn y Gofeb. Derbyniwyd ymateb gan Mr Peter Johnstone Uwch Swyddog Gorfodaeth (Lles Anifeiliaid) yn nodi ei fod wedi gwneud archwiliad ar safle Mr Elfyn Jones ar 17/02/2025 ble mae'r defaid yn dianc. Ar yr adeg hon cadarnhaodd Mr Jones ei fod wedi codi ffensys ar hyd y wal o fewn ardal yr Eglwys, a dywedodd eu bod wedi atal defaid rhag cael mynediad i'r fynwent. Ar adeg yr ymweliad safle roedd Mr Jones yn ailadeiladu'r waliau ac yn gosod giât wrth fynedfa'r fferm; pwynt lle honnodd fod defaid hefyd wedi bod yn dianc. Mae cyfrifoldeb ar Mr Jones i sicrhau bod ei ffiniau mewn cyflwr lle maent yn dal y defaid ac yn eu hatal rhag dianc. Fodd bynnag, nid oes gan Safonau Masnach unrhyw awdurdod o ran ffiniau is-safonol. Cytunwyd i gadw golwg ar y sefyllfa.

2409(1) – Bont Afon Prysor - Adroddodd y Cynghorydd Enid Roberts bod y coed Helyg yn parhau i fod ar bont Afon Prysor. Addawyd y byddai'r gwaith yma'n cael ei gwblhau cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Cytunwyd i wirio os oedd y gwaith wedi cael ei gwblhau a gyrru ail e-bost ddiwedd yr wythnos os nad oedd y gwaith wedi cael ei wneud.

2409(2) – Cerbydau y Maes Parcio - Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan Mr Twm Henri Williams, swyddog Rheolaeth Llygredd yn nodi nad ydynt mewn cyflwr sydd gallu achosi peryg i'r cyhoedd oherwydd hyn nid yw'n flaenoriaeth i'r Cyngor ddelio gyda nhw. Nododd yr e-bost y byddai'n costio tua £600 yr un i gael gwared ohonynt gan nad oes llawer o werth iddynt fel sgrap. Penderfynwyd i ymateb i'r e-bost yn gofyn i'r cyngor gadarnhau y byddent yn cymryd cyfrifoldeb pe bai rhywun yn brifo o ganlyniad i'r cerbydau yma fod yn y maes parcio'n berygl ac yn colli olew. Yn ychwanegol gofynnwyd iddynt gadarnhau'n ogystal os ydynt wedi rhoi gwybod i'r cwmni yswiriant nad ydynt am symud rhain.

2416(3) - Ffordd y Pentref – Adroddwyd bod rhywfaint o waith wedi ei wneud o amgylch y pentref i lenwi tyllau yn y ffyrdd. Adroddwyd bod tyllau yn Bont Afon Prysor wedi cael 'instant tar' arni ond ei fod wedi dod o'r tyllau'n barod.

2417(3) - Tender ar gyfer torri gwair y Llwybrau Cyhoeddus, Mynwentydd Pencefn a Salem, Gardd Salem, Cae Chwarae Ty Llwyd a'r tir o amgylch Cofeb Hedd Wyn - Adroddwyd bod y Swyddog Ariannol wedi trafod gyda Mr Gwyn Evans Cyngor Gwynedd i wneud ymholiadau ynglŷn a thorri gwair y llwybrau cyhoeddus. Adroddwyd yn ogystal bod y Swyddog Ariannol wedi gofyn i Gwmni Tir a Choed ond nad oeddent wedi ymateb hyd yma. Cytunwyd gofyn i Mr Phil Andrews dorri'r gwair yng Ngardd Salem ac os byddai yn cytuno bydd yn rhaid paratoi cytundeb. Cytunwyd i ofyn i Gwmni Ed Fray am bris am dorri'r llwybrau cyhoeddus a'r mynwentydd.

2429(2) - Mynwent Salem – Adroddodd y Cynghorydd Enid Roberts ei bod yn aros i Mr Robat Williams ddod yn ôl ati gyda pris.

2429(4) - Ffordd gefn 7-12 Bro Prysor - Adroddwyd bod y Clerc wedi gyrru'r lluniau ymlaen i Adra. Cafwyd ymateb yn dweud bod yr ymholiad wedi ei basio mlaen i'r tîm perthnasol.

2435(1) - Ffens bren rhwng Maes Graean a Cefn Gelltgwm – Doedd dim diweddariad pellach penderfynwyd ail gyfeirio'r mater at Mr Merfyn Morris.

2435(2) - Byrddau Dehongli ac Arwydd y Llyn - Adroddodd y Clerc nad oedd wedi derbyn ymateb a cytunwyd i yrru gohebiaeth am y trydydd tro i Gyngor Gwynedd yn gofyn os oes byrddau dehongli am ddod yn eu lle.

2440(3) – Cae Chwarae Ty Llwyd - Adroddwyd bod y Swyddog Ariannol wedi talu i gwmni G.L.Jones am wneud yr archwiliad ar gae chwarae Ty Llwyd ac wedi gofyn iddynt barhau gyda'r gwaith atgyweirio ac hefyd baratoi cynllun a pris am adnoddau newydd i'r cae chwarae. Cytunodd y Cynghorydd Aron Roberts i dynnu'r ffrâm ddringo er mwyn arbed arian i'r cyngor. Adroddodd y cynghorydd Hefin Jones ei fod am gysylltu a chyngor tref Blaenau gan eu bod wedi cael arian i wneud lle chwarae aml bwrpas er mwyn holi sut oedden nhw wedi cael yr arian yma.

2440(5) - Arian Llys Ednowain - Adroddodd y Swyddog Ariannol ei bod wedi agor cyfrif 'Money Manager' ac wedi buddsoddi arian Llys Ednowain am ddwy flynedd ynddo. Bydd yn ymddangos ar adroddiad ariannol mis nesaf. Pwysleisiwyd bod angen cynllun penodol mewn lle ar sut i ddefnyddio'r arian. Gofynnwyd i bawb feddwl am syniadau ar sut i ddefnyddio'r arian yn y dyfodol er budd y gymuned. Cytunwyd y byddai'r Swyddog Ariannol yn cysylltu gydag Adra i holi os oes ganddynt ddiddordeb mewn gwerthu Cae Bro Prysor i'r Cyngor ar gyfer datblygu y safle i ddefnydd gan y gymuned. Awgrymwyd yn ogystal i holi a fyddai'n bosib buddsoddi'r arian mewn Hydro er mwyn dod ag arian yn ôl i'r pentref.

2441(1) – 6 Bro Islyn a 22 Cefn Gwyn - cafwyd ymateb gan Adra yn cadarnhau mai nhw oedd yn berchen ar 6 Bro Islyn a 22 Cefn Gwyn. Nodwyd yn yr e-bost oherwydd deddf diogelu data na ellir datgelu unrhyw wybodaeth am ddefnydd na gwybodaeth am bwy sy'n byw yn y cartrefi hyn heb ganiatâd ysgrifenedig i wneud hyn.

2441(2) - Bron Gwyndy - Adroddodd y clerc na chafwyd ymateb am berchnogaeth Bron Gwyndy. Cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd Bron Gwyndy wedi ei gofrestru yn y gofrestfa tir felly nid oes modd cael y wybodaeth yma'n gyhoeddus. Cytunwyd i ofyn i'r Cynghorydd Sir Elfed Roberts i ofyn i'r cyngor am ei berchnogaeth ac i'r clerc yrru gohebiaeth i adran Gwarchod y Cyhoedd oherwydd cyflwr gwael y ty.

2441(3) – Llwybr beics o amgylch y Llyn - Adroddoddwyd bod y mater ynglŷn ar gwaith y ffens ar y llwybr beics o amgylch y llyn yn parhau. Mae 3 Cyngor gwahanol sef Trawsfynydd, Talsarnau a Gellilydan ynghlwm yn y llwybr beiciau gan bod y llwybr yn mynd drwy'r 3 plwyf.

2441(8) - Ysgol Bro Hedd Wyn – Yn dilyn ymateb Mr Gwern ap Rhisiart cytunwyd cadw'r mater ar y cofnodion er mwyn cael adborth gan Elfed Roberts y Cynghorydd Sir.

2442(1) – Rheolau, Polisiau ac Adroddiadau y Cyngor - Derbyniwyd a chadarnhwyd Rheolau, Polisiau ac Adroddiadau y Cyngor.

## 2446 - GOHEBIAETH

(1) Derbyniwyd holiadur Uchelgais Gogledd Cymru gan y Cynghorydd Elfed Roberts gyda chais i'r Cynghorwyr gwblhau'r holiadur erbyn y 14eg o Ebrill.

(2) Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd yn cynnal adolygiad cymunedol o dan adrannau 25 a 31 (Deddf Llywodraeth Leol Democratiaeth Cymru 2013). Golygir hyn newidiadau posibl i ffiniau rhai cymunedau penodol o fewn Gwynedd a wardiau pob cymuned. Cafwyd adroddiad atodol yn cynigion drafft y cyngor ar gyfer gwneud newidiadau ynghyd a manylion yr adolygiad cynhelir cyfnod ymgynghori cyhoeddus ar y cynigion drafft rhwng yr 28ain o Fawrth a'r 23ain o Fai.

## 2447 - ADRODDIAD ARIANNOL

(1) Derbyniwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol.

(2) Adroddodd y Swyddog Ariannol bod y dogfennau ar gyfer yr Awdit wedi cyrraedd a cadarnhawyd bod y Cyngor yn cael Awdit llawn eleni, mae hyn yn digwydd pob tair blynedd. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i wneud yr Archwiliad Mewnol eto eleni.

## 2448 - MATERION I'W TRAFOD AR Y PRYD

(1) Gofynodd y Cynghorydd Sarah Lock os byddai yn bosib gwerthu alcohol yn y Neuadd ar gyfer gweithgareddau/nosweithau. Adroddwyd ar hyn o bryd nad yw Cyfansoddiad y Neuadd yn caniatau gwerthu diod feddwol. Penderfynwyd y gall y cynghorydd Idwal Williams ofyn i bwyllgor dyfodol y neuadd pe bawn nhw'n cefnogi'r cais. Dywedodd y cadeirydd pan fydd y neuadd yn cael ei chofrestru bod angen sicrhau bod y 'restrictive covenent' ynglyn a diod feddwol ddim yna a bydd rhaid ei newid cyn cofrestru os am newid y cyfansoddiad.

(2) Adroddodd y cynghorydd Aron Roberts bod ceir yn gor-yrru trwy Stesion ac yn defnyddio'r ffordd i osgoi mynd ar yr A4212. Penderfynwyd cysylltu gyda Mr Adrian Williams i ofyn os oes bosib gosod twmpathau ar y ffordd i ostwng cyflymder ceir.

## 2449 - MATERION AR GYFER Y CYFARFOD NESAF

(1) Ethol Cadeirydd, Is-gadeirydd a chadarnau Aelodau yr Is-bwyllgorau.

## 2450 - ADRODDIADAU O'R CYFARFODYDD YN YSTOD Y MIS

1962(1) a 2138 - Adeiladau Cyhoeddus y Pentref - Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones nad oedd hysbyseb am y swydd Cydlynydd i'r neuadd heb fynd allan eto oherwydd fod yr hysbyseb yn gorfod cael ei roi i Mr Hywel Lovgreen er mwyn ei adolygu cyn iddo fynd allan. Adroddodd y Cynghorydd Annest Smith ei bod wedi gadael neges i Ms Lowri Rees er mwyn cofrestru'r neuadd, os nad yw hi ar gael i wneud y gwaith byddai'r cynghorydd Anest Smith yn awgrymu Breese Gwyndaf.

**CYFARFOD NESAF Y 7FED O FAI 2025.**